# EVANS, IFOR LESLIE (1897 - 1952), prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth

**Enw:** Ifor Leslie Evans
**Dyddiad geni:** 1897
**Dyddiad marw:** 1952
**Priod:** Ruth Evans (née Jolles)
**Rhiant:** Mary Elizabeth Evans (née Milligan)
**Rhiant:** William John Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth
**Maes gweithgaredd:** Addysg
**Awdur:** Edward Lewis Ellis

Ganwyd 17 Ionawr 1897, yn fab i William John Evans o Aberdâr a Mary Elizabeth (ganwyd Milligan) ei wraig. Addysgwyd ef yng Ngholeg Wycliffe, Stonehouse a bu'n astudio yn Ffrainc a'r Almaen lle, yn 1914, y cafodd ei garcharu yn Ruhleben hyd ddiwedd y rhyfel. Yno y dysgodd Gymraeg a newid ei enw bedydd Ivor i Ifor. Gweithiodd am gyfnod byr yn y fasnach lo yn Abertawe cyn mynd i Goleg S. Ioan, Caergrawnt, lle y cafodd radd dosbarth cyntaf mewn economeg a hanes. Yno cafodd ysgoloriaeth Whewell mewn cyfraith rhyngwladol, a phenodwyd ef yn ddarlithydd ac yn Gymrawd Coleg S. Ioan (1923-34). Bu'n aelod o staff yr *Economist* am gyfnod a gwasanaethodd ar gomisiwn Cynghrair y Cenhedloedd i ymchwilio i sefyllfa economaidd Awstria. Teithiodd yn helaeth yn nwyrain Ewrob ac Affrica a chyhoeddi *The agrarian revolution in Rumania* (1924), *The British in tropical Africa* (1929), a *Native policy in Southern Africa* (1934).

Yn 1934 daeth yn brifathro C.P.C., Aberystwyth, lle yr amlygodd ddoniau creadigol nodedig ynghyd â mesur helaeth o ddoethineb. Llwyddodd i ddileu dyled sylweddol y coleg, denodd roddion gwerthfawr iddo a phrynodd eiddo yn ddoeth. Ef a fu'n bennaf gyfrifol am gynllunio'r datblygiadau tymor hir ar safle newydd y coleg ar dir Penglais ac am godi'r adeiladau cyntaf. Er na threuliai fawr o'i amser yng nghwmni myfyrwyr, hyrwyddai unrhyw gynullun a fyddai er eu lles, gan sefydlu cyfundrefn flaengar a alluogai'r awdurdodau a chorff y myfyrwyr i gydymgynghori. Cymerodd ddiddordeb dwfn yng ngwaith adran amaethyddol y coleg, gan gyhoeddi mewn cydweithrediad ag A.W. Ashby *The agriculture of Wales and Monmouthshire* (1944).

Rhoddodd wasanaeth nodedig i Brifysgol Cymru fel is-ganghellor (1937-39, 1946-48, 1950-52), cadeirydd Bwrdd y Wasg ac, yn arbennig felly am lawer blwyddyn, fel cadeirydd y pwyllgor ystadau, pryd y daeth symiau mawr a ddeilliodd o ddatgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru yn rhydd i'w buddsoddi. Cymerodd ran flaenllaw mewn sefydlu Prifysgol Frenhinol Malta (a'i hanrhydeddodd â gradd D.Litt.) a hefyd yn natblygiad Coleg Prifysgol Ibadan.

Yr oedd yn ddyn awdurdodol, dewr, er weithiau'n ddidrugaredd, gyda phrofiad eang o'r byd a'i bethau a dealltwriaeth ddiwylliedig o bobloedd ac ieithoedd; cymerai ddiddordeb angerddol yn y diwylliant Cymreig. Cyhoeddodd nifer o gasgliadau a chyfieithiadau i'r Gymraeg o weithiau llenyddol, yn eu plith *Y Cybydd* (*L'Avare* Molière), *Chwedlau La Fontaine*, *Emynau o'r Almaen*, *Blodau hyfryd*, *Ffordd y Deyrnas* a *Mawl yr oesoedd* (casgliad o emynau Ewrob).

Ar 11 Tachwedd 1938 priododd Ruth Jolles o Hamburg a bu iddynt fab a merch. Bu farw 31 Mai 1952.

## Awdur

**Dr Edward Lewis Ellis**

## Ffynonellau


A.D.R., 'Ifor Leslie Evans (1897-1952)', *The Welsh Anvil*, 4, 9-12

*Who was who?*

Ellis, *The University College of Wales, Aberystwyth, 1872–1972* (1972)

*The Cambrian News and Merionethshire Standard*, 6 Mehefin 1952


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 83532553

Wikidata: Q5991242


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu